

# Yr hawl i gartref digonol yng Nghymru: y sylfaen dystiolaeth

Adroddiad ymchwil annibynnol gan Alma Economics

---

Comisiynwyd gan Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig  
Cymru a Shelter Cymru

Rhagfyr 2021



## Am yr awduron



Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd o'r radd flaenaf mewn dadansoddi a'r gallu i gyfleu syniadau cymhleth mewn ffordd glir.

[www.almaeconomics.com](http://www.almaeconomics.com)

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Alma Economics ar sail ei waith ymchwil. Hoffai'r tîm ymchwil gydnabod yn ddiolchgar y mewnbwn ar astudiaethau achos a gafwyd o drafodaethau â Maria Aldanas (Ffederasiwn Ewropeaidd Sefydliadau Cenedlaethol sy'n Gweithio gyda'r Digartref), yr Athro Isobel Anderson (Prifysgol Stirling), Juha Kaakinen (Prif Weithredwr y Y-Foundation, y Ffindir), Dr Padraic Kenna (Prifysgol Genedlaethol Iwerddon Galway), Kerri Kruse a Vee Blackwood (Comisiwn Hawliau Dynol Seland Newydd).



Mae Tai Pawb yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru. Rydym am weld Cymru'n wlad lle mae gan bawb hawl i gartref da.

[www.taipawb.org](http://www.taipawb.org)



Mae CIH Cymru yn helpu gweithwyr proffesiynol ym maes tai i greu dyfodol lle bydd gan bawb le i'w alw'n gartref. Ni yw'r corff proffesiynol i bobl sy'n gweithio ym maes tai, y llais annibynnol ar dai a hafan safonau proffesiynol.

[www.cih.org](http://www.cih.org)



Mae Shelter Cymru wedi'i sefydlu i amddiffyn yr hawl i gael cartref diogel. Rydym yn helpu miloedd o bobl bob blwyddyn yng Nghymru drwy gynnig cyngor annibynnol yn rhad ac am ddim.

[www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk)

## Yr hawl i gartref digonol

Mae'r hawl i gartref digonol yn hawl ddynol sylfaenol sy'n deillio o'r hawl i safon byw digonol, fel y mae wedi'i diffinio yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol<sup>1</sup> – "The States Parties to the present Covenant recognize the right of everyone to an adequate standard of living for himself and his family, including adequate food, clothing and housing, and to the continuous improvement of living conditions."

Mae'r hawl ddynol sylfaenol hon wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth mewn gwledydd fel De Affrica a Chanada ac yng nghyfansoddiadau gwledydd eraill fel y Ffindir. Yn fwy diweddar, mae'r Alban wedi cymryd camau tuag at gyflwyno'r hawl hon mewn deddfwriaeth genedlaethol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gwreiddu a'i gorfodi'n gynyddol. Ym mis Tachwedd 2021, o dan y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer cyflwyno hawl i gartref digonol yng Nghymru.<sup>2</sup>

Mae'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru wedi'i wneud dair blynedd ar ôl sefydlu ymgyrch Cefnogi'r Bil i ddadlau o blaid cyflwyno'r hawl i gartref digonol yng Nghymru.<sup>3</sup> Roedd y rhaglen waith hon yn cynnwys llunio adroddiad ar ddichonoldeb yn gyntaf gan Dr Simon Hoffman (Prifysgol Abertawe)<sup>4</sup> ac wedyn drafftio Bil arfaethedig.<sup>5</sup> Llofnodwyd y Bil Drafft gan fwy na 90 o randdeiliaid sydd mewn partneriaeth yng Nghymru, yn cynnwys prif weithredwyr Cymdeithasau Tai, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r llefaryddion ar dai dros y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Bydd cyflwyno'r hawl i gartref digonol yng nghyfraith Cymru yn helpu i ddelio â materion tai, yn cynnwys digartrefedd, diogelwch a fforddiadwyedd. Mewn arolwg barn a gynhaliwyd yn 2020 gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru (CIH Cymru)<sup>6</sup> o tua 1,000 o unigolion yng Nghymru, cafwyd bod 77% o bobl yn ffafrio cyflwyno hawl gyfreithiol i gartref a bod 83% o blaid y gosodiad y dylai'r llywodraeth fod yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn cael mynediad at gartref gweddus (Awan-Scully, 2020).

## Tai ac anghydraddoldeb tai yng Nghymru

Ar sail ymchwil gan Shelter Cymru, mae un o bob tri o bobl yng Nghymru yn byw mewn tai anniogel neu anfforddiadwy.<sup>7</sup> Mae'r pandemig wedi amlygu'r anghydraddoldebau hyn yn y sector tai wedi i'r cyfnodau clo beri i bobl yng Nghymru dreulio cyfnodau hir yn eu cartrefi. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rhai dinasyddion wedi treulio eu hamser mewn tai o ansawdd da gyda digon o le i fyw, mae eraill wedi byw mewn tai gorllawn o ansawdd gwael, ac unigolion eraill wedi profi digartrefedd.

Ar sail arolwg gan Shelter Cymru (2020), yn ystod y cyfnodau clo roedd 32% o deuluoedd yn byw mewn tai lle'r oedd peryglon, yn cynnwys lleithder, llwydni a pheryglon trydanol, yn ogystal â thoeau a

<sup>1</sup> Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Erthygl 11. Ar gael yma: <https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CESCR.aspx>

<sup>2</sup> Y Cytundeb Cydweithio, Llywodraeth Cymru, 2021. Ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf>

<sup>3</sup> Mae ymgyrch Cefnogi'r Bil yn cael ei harwain ar y cyd gan Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru.

<sup>4</sup> Yr hawl i dai digonol yng Nghymru: Adroddiad Dichonoldeb, Dr Simon Hoffman, 2019. Ar gael yma: <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2019/06/RightToHousing-Full-WELSH.pdf>

<sup>5</sup> Ar gael yn Gymraeg yma: <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2020/10/Draft-Bill-Cymraeg-.pdf> ac yn Saesneg yma: <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2020/09/Back-the-bill-right-to-adequate-housing.pdf>

<sup>6</sup> Y Sefydliad Tai Siartredig, 2020. "Three quarters support legal right to housing in Wales". Ar gael yma: <https://www.cih.org/news/three-quarters-support-legal-right-to-housing-in-wales>

<sup>7</sup> ITV, 2021. "Shocking' new figures demonstrate scale of housing crisis in Wales amidst calls for immediate Welsh Government action". Ar gael yma: <https://www.itv.com/news/wales/2021-05-26/shocking-new-figures-demonstrate-scale-of-housing-crisis-in-wales-amidst-calls-for-immediate-welsh-government-action>

fffenestri sy'n gollwng. Mae costau tai cynyddol, y gostyngiad ym maint y sector rhentu cymdeithasol a thwf rhentu preifat wedi cyfrannu at anghydraddoldebau tai cynyddol (Tystiolaeth gan UK Collaborative Centre for Housing, 2021). Ym mis Medi 2021, amcangyfrifwyd bod tua 130 o bobl yn cysgu allan yng Nghymru, a bod tua 7,000 mewn llety dros dro.<sup>8</sup>

Mae'r pandemig wedi amlygu'r anghydraddoldebau a brofir ar hyn o bryd gan grwpiau poblogaeth wrth gael mynediad at gartref digonol. Un o'r grwpiau hyn yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn ar gyfartaledd (Llywodraeth Cymru, 2021) ac sy'n wynebu risg fwy o fod yn ddi-gartref (Price, 2021). Mae ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches hefyd yn wynebu anghydraddoldebau tai; maent yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad at gartref digonol o ganlyniad i hiliaeth, gwahaniaethu, anghydraddoldeb neu ffactorau strwythurol (Tai Pawb, 2019; Llywodraeth Cymru, 2021).<sup>9</sup>

Mae unigolion yn y gymuned LHDTTC+ hefyd yn wynebu anghydraddoldebau tai, ac mae tystiolaeth o 2019 yn awgrymu bod y gymuned LHDTTC+ yn bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-gartref na'u cymheiriaid (End Youth Homelessness Cymru, 2019).

Grŵp poblogaeth arall sy'n wynebu anghydraddoldeb tai yw pobl anabl sydd ag angen byw mewn tai hygyrch sy'n eu helpu i fod yn ddiogel ac annibynnol wrth fyw o ddydd i ddydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhyw fath o anabledd gan 26% o bobl yng Nghymru a bod nam ar symudedd gan fwy na 10% ohonynt (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018).

## Costau cartrefi annigonol

Mae amodau tai gwael yn gallu amharu ar iechyd corfforol a meddyliol unigolion, gan gynyddu'r defnydd o'r GIG, gwaethygu iechyd hunangofnodedig a lleihau'r disgwyliad oes (gweler e.e. Palacios et al. (2020), Clark a Kearns (2012), Bailie et al. (2012)). Mewn adroddiad yn 2019, roedd lechyd Cyhoeddus Cymru wedi amcangyfrif bod amodau tai gwael yn costio £95 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru (Watson et al., 2019).

Mae byw mewn tai annigonol neu anfforddiadwy yn cael ei gysylltu â deilliannau addysgol gwael ymysg plant. Mae mwy o incwm ar gael i'w ddefnyddio gan deuluoedd sydd â mynediad at dai fforddiadwy i ddarparu maeth, sy'n gymorth pellach i blant berfformio'n well yn yr ysgol (Thomas, 2017). Mae tystiolaeth bod cysylltiad rhwng gwella digonolrwydd tai a lefelau uwch o gynhyrchiant a gweithgarwch economaidd (gweler e.e. Diamond, 2020 neu Wiesel, 2020).

Mae diffyg tai fforddiadwy a digonol yn cael ei gysylltu â mwy o gysylltiadau â'r system cyfiawnder troseddol (PWC, 2018).

Gan amlaf, ni fydd cartrefi annigonol yn ynni-efeithlon, fel eu bod yn allyrru mwy o nwyon tŷ gwydr ac yn darparu lefelau is o gysur thermol. Yn Nicol et al. (2019), edrychwyd ar enghraifft mewn astudiaeth achos a oedd yn ymwneud â'r costau a buddion o wella annedd yng Nghymru sydd â sgôr effeithlonrwydd ynni o 21. Byddai gwelliannau i'r cartref yn cynnwys inswleiddio'r atig, gosod gwydrau dwbl a gwella'r system wresogi, a hynny'n arwain at gynyddu sgôr effeithlonrwydd ynni'r adeilad i 57. Ar ben hynny, byddai allyriadau CO2 yr annedd a chost flynyddol tanwydd yn gostwng 53% a 49%, yn y drefn honno.

## Enghreifftiau mewn gwledydd tramor

Mae nifer o enghreifftiau o wledydd eraill sydd â rhyw fath o hawl i gartref digonol. Fodd bynnag,

<sup>8</sup> StatsCymru, Medi 2021. "Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan". Ar gael yma: <https://llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-medi-2021>

<sup>9</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Traciwr Hawliau Dynol. "Safon byw ddigonol / tlodi – asesiad Llywodraeth Cymru". Ar gael yma: <https://humanrightstracker.com/cy/progress-assessment/safon-byw-ddigonol-tlodi-asesiad-llywodraeth-cymru/>

defnyddir gwahanol ddulliau i warantu'r hawl honno.

Yn y Ffindir, mae'r hawl i gartref digonol yn rhan o Gyfansoddiad y Ffindir a chafwyd gweithredu sylweddol ar bolisiau sydd â'r bwriad o sicrhau bod tai o ansawdd da wedi'u darparu i gwrdd ag anghenion unigolion. O ran y cyfuniad o uchelgais wrth lunio polisiau a'r canlyniadau a sicrhawyd, y Ffindir sy'n cynnig yr astudiaeth achos fwyaf datblygedig yn y maes hwn ar hyn o bryd.

### **Y Ffindir: gwlad sy'n gwneud cynnydd sylweddol**

- Mae'r hawl i gartref, ochr yn ochr â hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eraill, yn rhan o Gyfansoddiad y Ffindir.
- Mae hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu datgan drwy gyfreithiau a gaiff eu hasesu ymlaen llaw gan Bwyllgor Cyfraith Gyfansoddiadol y Senedd cyn eu pasio a'u hystyried yn draddodadwy gan y llysoedd.
- Mae Tai yn Gyntaf yn fodel rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ddigartref yn cael mynediad at dai ac mae wedi'i seilio ar y ddamcaniaeth y byddai unrhyw broblemau eraill yn cael sylw ar ôl sicrhau cartref (National Alliance to End Homelessness, 2016). Rhoddwyd y model ar waith yn y Ffindir drwy raglenni cenedlaethol sydd wedi bod yn effeithiol o ran lleihau digartrefedd hirdymor.
- Dylid nodi dau wendid: (i) mae'r hawl hon yn amodol ar yr effaith ar iechyd pobl, a (ii) mae'r cysylltiad yn wan rhwng y Gyfansoddiad, sy'n diffinio'r hawl i gartref, a'r polisiau sy'n sicrhau'r hawl i gartref digonol.

Mae Canada a'r Alban yn ddwy enghraifft o wledydd sydd wedi cymryd camau tuag at gyflwyno'r hawl i gartref digonol yn eu deddfwriaeth ond sydd ar gam cymharol gynnar yn y broses honno. Mae Canada yn enghraifft unigryw o wlad sydd wedi cynnwys yr hawl i gartref digonol yn ei deddfwriaeth, gan ddarparu mecanweithiau anfarnwrol i sicrhau bod yr hawl wedi'i gwireddu. Mae'r dull o weithredu yng Nghnada yn ymddangos yn addawol, ond mae'n rhy gynnar i gael tystiolaeth o'i effeithiolrwydd.

### **Canada: canolbwyntio ar lywodraethu**

- Daeth y Ddeddf Strategaeth Dai Genedlaethol yn rhan o gyfraith Canada yn 2019: roedd yn pennu bod yr hawl i gartref digonol yn hawl ddynol sylfaenol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gwireddu'n gynyddol yn y wlad.
- Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn creu tri chorff atebolrwydd i hyrwyddo a diogelu'r hawl i gartref digonol: y Cyngor Tai Cenedlaethol, yr Eiriolwr Tai Ffederal a'r Panel Adolygu.
- O dan y Ddeddf, nid yw'r hawl i gartref digonol yn draddodadwy, ond fe all unigolion ddefnyddio mecanweithiau anfarnwrol i sicrhau eu hawl. Mae'r model yng Nghnada yn un unigryw; fodd bynnag, mae'n un a sefydlwyd yn ddiweddar ac nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth am ei effeithiolrwydd.

Mae'r Alban wedi cyflwyno hawl i gartref y gellir ei gorfodi drwy statud ac mae'n cymryd camau tuag at gyflwyno hawl orfodadwy i gartref digonol yn ei deddfwriaeth, drwy ymgorffori'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, yn cynnwys rhwymedigaethau ar wireddu cynyddol. Mae cyfraddau digartrefedd yn yr Alban yn is nag yng Nghymru;<sup>10</sup> mae'r llwyddiant yn yr

<sup>10</sup> Crisis, 2021. "The Homelessness Monitor: Scotland 2021". Ar gael yma: <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/scotland/the-homelessness-monitor-scotland-2021/>

Alban ar leihau digartrefedd yn dibynnu ar fuddsoddi gan lywodraeth a chyflenwad o dai cymdeithasol. Mae'r hyn a welir yn yr Alban yn dangos ei bod yn hanfodol, wrth wireddu hawl sy'n gysylltiedig â thai, fod hawl y gellir ei gorfodi drwy'r gyfraith yn cael ei chyfuno ag ymrwymiad gwleidyddol cyffredinol i sicrhau bod yr hawl hon yn cael ei gwireddu o dan bolisi cyllidebol anodd.

Mae Seland Newydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â Chanada a'r Alban fel astudiaeth achos sy'n dangos cynnydd sylweddol o ran llunio polisi a chanlyniadau ac sydd hefyd ar gam cynnar yn y broses o sefydlu'r hawl gyfreithiol i gartref digonol.

Ceir enghreifftiau hefyd o wledydd sydd wedi cyflwyno cyfreithiau sydd â'r bwriad o sicrhau mynediad at gartrefi digonol ac sydd heb lwyddo am wahanol resymau. Roedd y gyfraith DALO yn Ffrainc, a gyflwynodd fath o hawl unigol, orfodadwy i gartref, yn un aneffeithiol o ran ailgartrefu unigolion. Roedd yr achos hwn yn amlygu'r angen am ddarparu adnoddau i sicrhau bod cyfreithiau cysylltiedig â thai yn cael eu gweithredu a'u bod yn effeithiol. Ar y llaw arall, roedd Deddf Catalonia, a ddiffiniodd wahaniaethu ac aflonyddu ym maes tai, yn ymddangos yn addawol. Fodd bynnag, roedd newid arall mewn deddfwriaeth wedi'i niwtraleiddio i bob pwrpas.

Mae De Affrica yn enghraifft unigryw o wlad sydd wedi cyflwyno math cryf o hawl draddodadwy i fynediad at gartref digonol. Er bod rhai achosion llys llwyddiannus wedi bod yn Ne Affrica, mae gwelliannau mewn canlyniadau wedi'u llesteirio gan ddiffyg yn y cyflenwad o dai digonol.

#### **De Affrica: hawl draddodadwy heb fuddsoddi yn y cyflenwad tai**

- Mae'r hawl draddodadwy i fynediad at dai digonol wedi'i chynnwys yng Nghyfansoddiad De Affrica.
- Er bod rhai achosion llys llwyddiannus wedi bod yn Ne Affrica, sy'n dangos bod hawliau y gellir eu gorfodi drwy'r gyfraith yn amod angenrheidiol i sicrhau mynediad at gartrefi digonol, mae buddsoddi mewn cyflenwad tai o ansawdd da yn bwysig i sicrhau a gwireddu'r hawl yn y wlad. Nid yw buddsoddi o'r fath wedi digwydd yn Ne Affrica, a hynny'n amlygu'r angen am fuddsoddi yn y cyflenwad tai, gan y sector preifat neu'r sector cyhoeddus, er mwyn i ddeddfwriaeth lwyddo.

## **Gwersi a ddysgwyd o astudiaethau achos**

Mae cyflwyno hawl gyfreithiol i gartref digonol mewn deddfwriaeth yn amod angenrheidiol i sicrhau bod modd ei gorfodi a'i bod yn cael ei gwireddu'n gynyddol. Mae'r dystiolaeth wedi dangos hefyd fod ymrwymiad gwleidyddol i ddarparu tai o ansawdd da drwy lunio polisi (yn enwedig i hybu'r cyflenwad) yn gallu bod o gymorth ychwanegol i wireddu'n gynyddol yr hawl i gartref digonol.

Mae astudiaethau achos o wledydd eraill yn cynnig gwersi buddiol ar gyfer gweithredu'r hawl i gartref digonol yng Nghymru, yn enwedig yng nghyswllt: (i) ei gwireddu'n gynyddol; (ii) llywodraethu, a (iii) y cyflenwad tai.

### **i. Gwireddu'n gynyddol**

Mae cymryd camau i wireddu hawl gyffredinol i gartref digonol yn nod na ellir ei gyflawni ar unwaith o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn wir am Gymru ar hyn o bryd ac roedd yn wir hefyd am yr holl astudiaethau achos ar yr adeg roedd y gwledydd hynny wedi cyflwyno ffurfiau ar yr hawl i gartref digonol.

"Gwireddu cynyddol" yw'r syniad y dylai llywodraethau wneud cynnydd parhaus at lawn wireddu hawl

ddynol, gan gymryd camau bwriadol ar y pryd ac yn y dyfodol.<sup>11</sup> Dyma'r ffordd ddichonol i'w dilyn gan wledydd sy'n cyflwyno'r hawl i gartref digonol.

Mae'r Ffindir yn arwain y ffordd ar ddarparu trywydd ar gyfer gwireddu cynyddol. Ers cyflwyno'r hawl i gartref digonol yn ei chyfansoddiad 21 mlynedd yn ôl, cafwyd gwelliant parhaus ond graddol gyda chynnydd sylweddol yn y cyflenwad tai a chamau i roi'r Ffindir ar y trywydd iawn i roi terfyn ar ddiartrefedd erbyn 2027.

## ii. Llywodraethu

Mae mecanweithiau llywodraethu yn allweddol i wireddu'n gynyddol yr hawl i gartref digonol ac mae gwersi i'w dysgu ar lywodraethu gan wahanol awdurdodaethau:

- Yn y Ffindir, mae hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu datgan drwy gyfreithiau a gaiff eu hasesu ymlaen llaw gan Bwyllgor Cyfraith Gyfansoddiadol y Senedd cyn eu pasio a'u hystyried yn draddodadwy gan y llysoedd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau mewn polisi sy'n effeithio ar yr hawl i gartref digonol.
- Yng Nghanada, law yn llaw â chyflwyno'r hawl i gartref digonol, sefydlwyd tri chorff atebolrwydd i fonitro, hyrwyddo a diogelu'r hawl. Mae'r model yng Nghanada yn un unigryw; fodd bynnag, mae'n un a sefydlwyd yn ddiweddar ac nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth am ei effeithiolrwydd.
- Mae diffyg mecanweithiau llywodraethu addas yn allweddol o ran deall y cynnydd arafach a gafwyd yn Ffrainc a Sbaen.

Er mwyn sicrhau gwireddu cynyddol, mae'n allweddol cael strwythur lle nad yw deddfu newydd yn achosi lleihad yn yr hawl i gartref digonol.

## iii. Y cyflenwad tai

Mae cynyddu'r cyflenwad tai a gwella digonolrwydd y stoc bresennol yn allweddol ar gyfer gwireddu cynyddol. Dyma'r ffactor allweddol sydd wedi arwain at y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau llwyddiannus iawn a gafwyd dros amser yn y Ffindir o'u cymharu â gwledydd fel De Affrica, lle mae lefelau tebyg o uchelgais cyfreithiol ynghyd â lefelau is o adnoddau i gynyddu'r stoc o dai digonol, yn bennaf am fod De Affrica yn wlad lle cafwyd llai o ddatblygiad yn ei heconomi.

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau hyn yn y cyflenwad tai a digonolrwydd y stoc bresennol, mae angen buddsoddi newydd. Gellid cael hyn gan y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

## Y cyfle i Gymru

Mae'r hawl i gartref digonol yn elfen hanfodol yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Drwy ei gwireddu'n gynyddol dros amser, byddai cyflwyno'r hawl hon yng Nghymru yn arwain at gynnydd parhaus ar ddelio ag anghydraddoldeb tai yng Nghymru a rhoi terfyn ar y costau i deuluoedd a gwasanaethau cyhoeddus sy'n ganlyniad i fyw mewn cartrefi annigonol.

Er bod y rhan fwyaf o'r gwledydd yn yr astudiaethau achos wedi mynd yn bellach na Chymru ar hyn o bryd yn nhermau eu huchelgais wrth ddeddfu a chyhoeddiadau am ragor o ddeddfu, mae gwendidau ym mhob un o'r astudiaethau achos. Mae hyn yn cynnig cyfle i Gymru elwa o'r gwersi a ddysgwyd er mwyn dod yn batrwm ar lefel ryngwladol wrth sefydlu a gwireddu'r hawl i gartref digonol.

Byddai'r Bil Drafft a gynigiwyd gan ymgyrch Cefnogi'r Bil<sup>12</sup> yn creu hawl draddodadwy sy'n gryfach

<sup>11</sup> Gweler e.e. "Progressive Realisation and Non-regression", <https://www.escr-net.org/resources/progressive-realisation-and-non-regression>

<sup>12</sup> Ar gael yn Gymraeg yma: <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2020/10/Draft-Bill-Cymraeg-.pdf> ac yn Saesneg yma <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2020/09/Back-the-bill-right-to-adequate-housing.pdf>

na'r hyn a sefydlwyd mewn unrhyw un o'r gwledydd yn yr astudiaethau achos, gyda llywodraethu clir i hyrwyddo gwireddu cynyddol, yn cynnwys cyflwyno asesiadau effaith tai ar gyfer llunio cyfreithiau a pholisiau newydd sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar dai (yn cynnwys dyraniadau cyllideb) ac adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'w cyflwyno i'r Senedd.



# Cyfeiriadau

---

Awan-Scully, R., 2020. Public attitudes to social housing in Wales. Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Ar gael yma: <https://www.cih.org/media/vnwj4sqa/public-attitudes-to-social-housing-in-wales-report-2020.pdf>

Baillie, R.S., Stevens, M., McDonald, E.L., 2012. The impact of housing improvement and socio-environmental factors on common childhood illnesses: a cohort study in Indigenous Australian communities. *J Epidemiol Community Health* 66, 821–831. <https://doi.org/10.1136/jech.2011.134874>

Clark, J., Kearns, A., 2012. Housing Improvements, Perceived Housing Quality and Psychosocial Benefits From the Home. *Hous. Stud.* 27, 915–939. <https://doi.org/10.1080/02673037.2012.725829>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018. Housing and disabled people: Wales's hidden crisis. Ar gael yma: <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf>

Diamond, M.R., 2020. The Costs and Benefits of Affordable Housing: A Partial Solution to the Conflict of Competing Goods. Ar gael yma: <https://scholarship.law.georgetown.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=3311&context=facpub>

End Youth Homelessness Cymru, 2019. Out On The Streets - LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales. Ar gael yma: <https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303>

Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol.pdf>

National Alliance to End Homelessness, 2016. Fact Sheet: Housing First. Ar gael yma: <http://endhomelessness.org/wp-content/uploads/2016/04/housing-first-fact-sheet.pdf>

Nicol, S., Garrett, H., Woodfine, L., Watkins, G., Woodham, A., 2019. The full cost of poor housing in Wales. Building Research Establishment Cyf, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: <https://phw.nhs.wales/news/the-cost-of-poor-housing-in-wales/the-full-cost-of-poor-housing-in-wales/>

Palacios, J., Eichholtz, P., Kok, N., Aydin, E., 2020. The impact of housing conditions on health outcomes. *Real Estate Econ.* n/a. <https://doi.org/10.1111/1540-6229.12317>

Price, J., 2021. Gwella Cydraddoldeb ym maes Tai a Llety. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yma: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Gwella-Cydraddoldeb-Hiliol-ym-maes-Tai-a-Llety.pdf>

PWC, 2018. Assessing the costs and benefits from Crisis' plan to end homelessness. Crisis. Ar gael yma: [https://www.crisis.org.uk/media/238957/assessing\\_the\\_costs\\_and\\_benefits\\_of\\_crisis-\\_plan\\_to\\_end\\_homelessness\\_2018.pdf](https://www.crisis.org.uk/media/238957/assessing_the_costs_and_benefits_of_crisis-_plan_to_end_homelessness_2018.pdf)

Shelter Cymru, 2020. Briefing Paper: Life in Lockdown in Wales. Ar gael yma: [https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Life-in-lockdown-in-Wales\\_Nov-2020.pdf](https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Life-in-lockdown-in-Wales_Nov-2020.pdf)

Tai Pawb, 2019. Refugee Housing and Support Feasibility Study. Ar gael yma: <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2019/06/FINAL-Tai-Pawb-Refugee-Housing-Feasibility.pdf>

Thomas, M.A., 2017. On The Benefits of Affordable Housing - An Assessment of Recent Literature for Municipalities. Ar gael yma: <https://tqsoi.org/wp-content/uploads/2018/03/On-the-benefits-of->

[affordable-housing.pdf](#)

Tystiolaeth gan UK Collaborative Centre for Housing, 2021. Housing in Wales: Evidence for Welsh Government 2021-26. Ar gael yma: <https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2021/04/Welsh-paper.pdf>

Watson, I., MacKenzie, F., Woofine, L., Azam, S., 2019. Making a Difference: Housing and Health: A Case for Investment. Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yma: <https://phw.nhs.wales/files/housing-and-health-reports/a-case-for-investment-report/>

Wiesel, D.I., 2020. Living with disability in inaccessible housing: social, health and economic impacts. Ar gael yma: [https://disability.unimelb.edu.au/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0019/3522007/Accessible-Housing-FINAL-REPORT.pdf](https://disability.unimelb.edu.au/__data/assets/pdf_file/0019/3522007/Accessible-Housing-FINAL-REPORT.pdf)



**Yr hawl i gartref digonol yng Nghymru:  
y sylfaen dystiolaeth**